# Ennyn Diddordeb Pobl Ifanc i Gymryd Rhan! (Taflenni Syml Ac Eglur TPAS Cymru)

**Mae ennyn diddordeb tenantiaid ifanc i 'gymryd rhan' yn parhau i fod her gyson o ran cyfranogiad tenantiaid. Pan gânt eu cynnwys yn llwyddiannus, mae pobl ifanc yn dod â safbwynt unigryw, gwybodaeth leol drylwyr, digon o syniadau ffres a chreadigrwydd.  Gall hyn fod o fudd mawr i'r cymunedau y maent yn byw ynddynt a gwella darpariaeth gwasanaethau. Mae'n arfer da i gynnwys POB tenant i leisio barn; felly RHAID i fwy o bobl ifanc gymryd rhan trwy ymarfer effeithiol a dulliau cyfranogi effeithiol.**

## Newid meddylfryd

Mae'n hawdd tybio bod diffyg cysylltiad blaenorol gan bobl ifanc yn ganlyniad i ddiffyg diddordeb cyffredinol neu gymhelliant ar eu rhan nhw. Mae'n fyth cyffredin nad oes gan bobl ifanc ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, eu teuluoedd a'u cymunedau. Mae'r dybiaeth yma yn un o'r rhwystrau mwyaf i'w goresgyn os yw sefydliadau am ymgysylltu â nhw yn llwyddiannus.

Mae'n hanfodol i ddatblygu diwylliant **'cyfeillgar i'r bobl ifanc'** drwy'ch sefydliad sy'n herio'r dybiaeth nad yw pobl ifanc yn dymuno cymryd rhan. Os nad yw agweddau cadarnhaol yn cael eu sefydlu, yna ni ellir disgwyl i berthynas o ymddiriedaeth rhwng y bobl ifanc a'r sefydliad i ddatblygu. Mae'r ymddiriedaeth yma yn sylfaenol i feithrin cyfranogiad parhaol llwyddiannus y bobl ifanc.

## Dim ond rhai o'r manteision a ddaw drwy gynnwys tenantiaid ifanc yn llwyddiannus:

### Dim ond rhai o'r manteision a ddaw drwy gynnwys tenantiaid ifanc yn llwyddiannus::

Mae cael gwrandawiad a chael eu gwerthfawrogi yn gallu helpu i wella hunan-barch a hyder pobl ifanc.

Gall cyfranogiad gynnig profiad ymarferol a chyfrannu at ddatblygiad personol a chymdeithasol person ifanc.

Gall cymryd rhan ddod â thenantiaid ieuengach mewn cysylltiad ag eraill sy'n byw yn eu cymuned a helpu i leddfu unigrwydd ac arwahaniad.

Po fwyaf o gyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc i gymryd rhan, y mwyaf tebygol ydynt i ddod yn aelodau mwy gweithgar yn eu cymunedau ehangach a pharhau i gymryd rhan wrth iddynt fynd yn hŷn.

Gall gynnwys pobl ifanc herio'r mathau o stereoteipiau sydd gan gymunedau amdanynt, meithrin gwell perthynas a chyfrannu tuag at gydlyniad cymunedol.

## Buddiannau i landlordiaid:

Mae gan bobl ifanc bersbectif unigryw ar y gwasanaethau maent yn eu derbyn. Drwy wrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, gall y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu a'u datblygu gael eu newid a'u gwella.

Bydd datblygu perthynas effeithiol o ymddiriedaeth gyda thenantiaid ifanc o fudd i'r sefydliad am flynyddoedd i ddod. Hwy yw tenantiaid ac aelodau'r gymuned ar gyfer y dyfodol wedi'r cyfan, a gallent barhau i gymryd rhan mewn ffyrdd cadarnhaol yn hwyrach ymlaen

Gall ymgysylltu effeithiol o denantiaid iau gyfrannu at ostyngiad o gwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol

**Cael gwared ar y rhwystrau.** Ni allwn ddisgwyl i bobl ifanc gymryd rhan os nad ydym yn cael gwared ar y 'rhwystrau' a fydd yn effeithio ar eu gallu neu barodrwydd i gymryd rhan. Mae'n arfer da i asesu eich gwasanaethau Cyfranogiad Tenantiaid cyfredol yn ogystal â'r gwasanaethau newydd sy'n cael eu datblygu er mwyn amlygu a nodi rhwystrau posibl a fydd yn ei gwneud yn fwy anodd i denantiaid iau i gymryd rhan. Gallai hyn gynnwys amseroedd a lleoliadau anaddas, llenyddiaeth / gwybodaeth yn cael eu cyfleu mewn ffordd anaddas a / neu ddiffyg dewisiadau hyblyg a ffyrdd iddynt gymryd rhan.

**Defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol.** Mae gan y rhan fwyaf o bobl ifanc gyfryngau cymdeithasol ac yn ei ddefnyddio bob dydd. Mae llawer o bobl ifanc yn anghyfforddus yn delio â staff wyneb yn wyneb neu dros y ffôn ac mae cyfryngau cymdeithasol yn cael gwared ar y rhwystr yna. Mae ymchwil wedi dangos bod pobl ifanc yn ymgysylltu mwy â lluniau, fideos a negeseuon byr, felly mae'n werth meddwl am sut y gellir dangos y wybodaeth yn wahanol. Ffaith ddefnyddiol: Mae mwy o bobl ifanc yn defnyddio Facebook na Twitter.

**Beth yw’r wobr?!** Mae pobl ifanc yn fwy tebygol o gymryd rhan os ydynt yn gallu gweld y buddiannau ar unwaith. Mae angen iddynt weld ‘beth yw’r

manteisiion i mi’ ac efallai na fyddent yn gweld y manteision tymor hir y mae tenantiaid hŷn yn eu gweld wrth gymryd rhan. Felly, dylid ei gwneud yn amlwg beth fyddant yn ei gael wrth gymryd rhan, boed yn gymhelliad gwobr o daleb neu yn gyfle i ennill sgil / profiad newydd i ychwanegu at eu CV. Mae digon o ffyrdd i'w 'bachu' felly byddwch yn greadigol!

**Gweithio ag eraill!** Nodwch lle mae grwpiau a gweithgareddau presennol yn bodoli a chysylltwch â sefydliadau eraill sydd eisoes yn ymgysylltu â phobl ifanc yn dda. Efallai eu bod eisoes yn gwneud rhywbeth gyda phobl iau y gallwch ei gefnogi a / neu fod yn rhan ohono. Gwnewch y gorau o'r tenantiaid, aelodau o'r gymuned a’r sefydliadau yr ydych eisoes wedi ymgysylltu'n dda â hwy fel y gallant fod yn adnodd allweddol i'ch helpu i ‘ledaenu’r gair!’

**Hyblygrwydd!** Mae angen bod yn hawdd i bobl ifanc gymryd rhan. Yn aml iawn, nid yw bod yn hyblyg gydag amseroedd a lleoliadau i ddarparu ar gyfer anghenion pobl ifanc yn ddigon. Dylech fynd â'r gweithgareddau atynt a rhoi cyfleoedd iddynt gymryd rhan cyn lleied neu cyn amled ag y maent yn dymuno. Mae hefyd yn bwysig nad yw cyfranogiad yn dod yn amod ar gyfer cael at wasanaethau ieuenctid a gweithgareddau hwyliog.

**Adborth!** Mae rhoi adborth yn hanfodol ar gyfer cyfranogiad parhaus pobl ifanc. Mae'n dangos y gwahaniaeth y maent wedi'i wneud trwy gymryd rhan, ac o ganlyniad yn gwneud y cyfranogiad yn fwy ystyrlon ac yn eu helpu i ennill ymdeimlad o falchder. Noder: Mae hefyd yn bwysig rhoi gwybod i bobl ifanc os na ellir gwneud newidiadau a pham.

**Cadwch e’n ddifyr!** Ni fyddant yn dod yn ôl os nad yw'n ddifyr felly byddwch yn greadigol yn y dulliau a ddefnyddiwch. Mae defnyddio dulliau anffurfiol yn debygol o fod yn fwy deniadol a difyr na dulliau mwy 'traddodiadol'. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na all pobl ifanc fod yn rhan o ddulliau 'traddodiadol' o gyfranogiad os yw'r rhain yn cael eu cynllunio yn gywir.

## Astudiaeth Achos!

Mae Tŷ Cyfle yn brosiect tai pontio unigryw sy'n anelu at fynd i'r afael â'r mater o denantiaethau pobl ifanc sy'n methu, a chylch digartrefedd pobl ifanc. Mae Tŷ Cyfle wedi dod yn adnabyddus yn sector tai Cymru fel enghraifft o ymgysylltu effeithiol â phobl ifanc i gyflawni deilliannau ardderchog. Dangosodd y prosiect ddealltwriaeth o gyfranogiad fel proses, yn enwedig wrth weithio gyda phobl ifanc ac, yn yr achos hwn, pobl ifanc gyda bywydau anhrefnus ac anghenion cymhleth.

Bu i staff y prosiect weithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth â Fforwm Ieuenctid Afon (grŵp amrywiol o bobl ifanc sydd â phrofiad uniongyrchol o'r problemau y

maent yn gobeithio eu datrys). Rhoddwyd amser ac ymdrech i adeiladu ymddiriedaeth a datblygu perthynas cryf gyda'r bobl ifanc y maen nhw'n gweithio gyda. Roeddent am i'r agenda fod yn seiliedig ar yr hyn y mae'r bobl ifanc eisiau. Roedd hyn yn amlwg trwy gydol y prosiect, roedd y bobl ifanc yn cymryd rhan ym mhob cam o'r datblygiad, gan gynnwys gweithio ar y cyd â'r dylunwyr proffesiynol ar benderfyniadau ar y cynllun, gosodiadau a ffitiadau ac addurn. Bu i bobl a oedd yn ddi-waith yn flaenorol, hyd yn oed weithio ar yr adeilad. Bu iddynt gwblhau cymhwyster cyflogadwyedd achrededig 'diwydiant sy'n gweithio' a gyfrannodd at 40% yn cael eu cyflogi.

Roedd y prosiect yn llwyddiant ysgubol, yn cyflawni canlyniadau trawiadol, gan gynnwys cynaliadwyedd tenantiaeth 100%yn y flwyddyn gyntaf, heb unrhyw faterion/problemau rhent neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd hyn yn cymharu â ffigurau blaenorol o 61% o leoliadau tai i bobl ifanc yn chwalu.

## Angen cymorth i ddatblygu eich Strategaeth Cyfranogiad 'Person Ifanc'?

Mae TPAS Cymru yn datblygu pecyn cynhwysfawr i gefnogi datblygiad eich cyfranogiad gan gynnwys asesu ymarfer, gwybodaeth, hyfforddiant a monitro cyfredol.

## TPAS Cymru South

TPAS Cymru
The Unite Building
1 Cathedral Road
Cardiff
CF11 9SD

ffôn: 02920 237 303
e-bost: enquiries@tpascymru.org.uk

## TPAS Cymru North

TPAS Cymru
77 Conway Road
Colwyn Bay
Conwy
LL29 7LN

ffôn: 01492 593046
e-bost: iona@tpascymru.org.uk